General Pharmaceutical Council

# Arddangos proffesiynoldeb ar-lein

Mae ein safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad yn egluro'r ymddygiad ac agwedd a'r rhinweddau a nodweddion a ddisgwylir gan weithwyr fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Yr un yw'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau sydd ar weithwyr fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol wrth ryngweithio ar-lein ac wyneb yn wyneb.

## Defnyddio'r cyfryngau ymdeithasol

Mae'r CFfC yn disgwyl i weithwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll ac ymddwyn yn broffesiynol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o weithio gyda chydweithwyr, cyfoedion a'r cyhoedd. Ond maen nhw'n gallu croesi'r ffin rhwng defnydd personol a defnydd proffesiynol –ystyriwch, wastad, ddisgwyliadau a chanfyddiadau cleifion, cydweithwyr a chyflogwyr. Cofiwch ei bod yn hawdd iawn copïo a dosbarthu unrhyw beth a ddywedir ar-lein, a gellir ei ddefnyddio allan o gyd-destun. Gall hyn effeithio ar hyder a ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol. Byddwch yn barod i herio ymddygiad gwael a chodi gofidiau gyda'r unigolion neu sefydliadau priodol pan fo angen.

**Cofiwch:**

- **ymddwyn yn broffesiynol**
- **trin pobl gyda pharch**
- **cadw cyfrinachedd a phreifatrwydd drwy'r amser**
- **cynnal ffiniau proffesiynol priodol**
- **meddwl cyn postio ar-lein, nid yw**
- **gosodiadau preifatrwydd wastad yn golygu y bydd rhywbeth yn para'n breifat a dyw datgan mai eich barn bersonol chi a fynegir yn golygu fawr ddim mewn gwirionedd**

**Peidiwch â:**

- **bwlio, aflonyddu na chodi braw**
- **camwahaniaethu'n anghyfreithlon**
- **postio sylwadau amhriodol**
- **rhannu gwybodaeth am gleifion a'u gofal**
- **cael eich tynnu i drafodaethau negyddol ac anadeiladol**

## Further guidance and resources

Mae'r Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol wedi cyhoeddi **cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol** ar gyfer ei haelodau

**General Pharmaceutical Council**
**One Cabot Square, London E14 4QJ**
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPHC**
**TheGPHC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**